

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, IONAWR 30ain, 2023

PRESENNOL

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Alun Morris

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2022.

1.MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

1.1 LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, Ffordd TYRPEG UCHAF

Cyng. Nia Clwyd a Cyng. Aaron Wynne am drefnu i Gyngor Conwy anfon llythyr swyddogol at berchennog y cerbyd sydd yn parcio ar y llinellau melyn gyferbyn ac ysgol Llanddoged.

1.2. CAIS GRANT' DATBLYGU GWLEDIG CONWY'

Cadarnhaodd y clerc fod y cyngor cymuned wedi derbyn yr arian grant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am osod y byrddau picnic yng Nghae Chwarae Cae Cetyn, Llanddoged.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn cael cyfarfod gyda Mr Dave Dudley dydd Mercher 1af o Chwefror i drafod materion sydd wedi codi gyda'r concrit slab o dan y byrddau picnic a bydd yn adrodd yn ol y canlyniad y mater yn y cyfarfod nesaf.

1.3 COEDEN NADOLIG

Angen anfoneb gan Mr Wyn Williams am y goeden Nadolig – Cyng. Eifion Williams am holi Tir a Mor am yr anfoneb.

1.4 LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 21 NANT, PONT Y CROES Ffordd TRWYN SWCH, LLANDDOGED

Cyhoeddodd y clerc fod Mr Emyr Jones o'r Adran Priffyrdd/Llwybrau Cyhoeddus yn fodlon agor llwybr cyhoeddus fwy diogel drwy'r coed wrth Nant Pont y Croes, Llanddoged os bydd perchennog y tir yn fodlon gyda hyn.

2. CYNLLUNIO

2.1 Cyfeirnod 0/50240 Mr Dylan Jones Codi lagwn slyri a chladdfa silwair newydd Park Farm, Maenan, LL26 0UG

2.2 Cyfeirnod: 0/50251 Mrs Megan Jones . Amrywio amod rhif 2 i ganiatáu ar gyfer diwygio cynlluniau a chael gwared ar amod rhif 3 o ganiatâd cynllunio 0/48376 (Dymchwel y byngalo presennol, codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig) Caerfaenan Rhiw Dafnau Isaf Maenan Llanrwst LL26 OYE .

Trafodwyd y ddau gais cynllunio uchod a phasiwyd drwy aelodau'r cyngor godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad iddynt.

3. CYNNAL A CHADW

3.1 Tyllau ar Ffordd Ffridd wrth ymyl Waen Oer.

3.2 Pryder fod draen wedi blocio gan fod dwr yn llifo i lawr drwy Gae Chwarae Cae Cetyn ac i mewn i safle Llety Dryw a Maes Dafydd, Tyddyn Mali, Llanddoged.

3.3 Cerrig wedi dod lawr o wal ar ffordd Llanddoged rhwng Cae Brychiad a Charreg Ednyfed .

- 3.4 Cais am gael arwydd 'Anaddas i Gerbydau Trwm' i gael ei osod yn waelod y ffordd yr Abbey wrth y A470 yn dilyn achos o gerbyd wedi cael trafferthion yno yn ddiweddar.
- 3.5. Arwydd 'Anaddas i Gerbydau Trwm' wedi dod i lawr wrth groesffordd Tyddyn Frencher, Maenan.
- 3.6. Rhan o wal wedi dod i lawr ar y ffordd i lawr am Tyddyn Frencher.
- 3.7. Tyllau yn ffordd ar ffordd Bryn Saith Llanddoged a ffordd yn gostwng rhwng Rhiwlas a Bryn Saith.
- 3.8 Tyllau yn y ffordd Fron Francis rhwng Groesffordd Aneddle i lawr at Fron Francis.
- 3.9 Twll yn y ffordd ar Ffordd Trwyn Swch wrth Maes Bach.

4. UNRHYW FATER ARALL

4.1 ARGLAWDD TAN LAN

Cafwyd adroddiad gan Cyng Aaron Wynne ynglŷn â sefyllfa'r Arglawdd Tan Lan Llanddoged a beth ydi bwriad Cyfoeth Naturiol Cymru i adael pethau fel ac y mae ac nid trwsio'r arglawdd Pasiwyd aelodau y cyngor i gefnogi Cyng Aaron Wynne a Chyng Nia Clwyd i wrthwynebu'r penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.2 BAW CWN

Derbyniwyd nifer o gwynion am baw cwn sydd o gwmpas y pentref. Nodwyd fod yna ddau fin cael gwared ar baw ci wedi ei lleoli yn y pentref un yng Nghae Cetyn a bin ysbwriel du sydd wrth Hysbysfwrdd y pentref.

4.3 CAIS ARIANNOL

Trafodwyd y cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst. Pasiwyd drwy aelodau godi eu dwylo i anfon siec am £30 tuag at wobwr yn yr Eisteddfod.